



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Crynodeb o'n Cynllun Corfforaethol

// 2014 - 2017



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



// rydym yn croesawu ymrwymiad Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau y seilir ei holl benderfyniadau ar wyddoniaeth gadarn... gallwn hybu penderfynu gwell a mwy cynaliadwy

Sylwadau o'r Ymgynghoriad

Croeso i'r crynodeb o'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2014-17. Yma, rydym yn esbonio'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf.

Amgylchedd Cymru yw un o'n hasedau mwyaf gwerthfawr. Wedi'i thrysori gan bobl Cymru a thu hwnt oherwydd ei fywyd gwylt, ei dirweddau a'i forweddau, y mae'n hanfodol oherwydd yr ystod o wasanaethau y mae'n eu darparu – bwyd a dŵr, ynni, a hyd yn oed yr awyr yr ydym yn ei anadlu. Ein hamgylchedd yw'r man lle'r ydym yn byw, yn gweithio ac yn chwarae; mae'n rhan o'n diwylliant ac mae'n allweddol i'n ffyniant economaidd a'n hymdeimlad o gymuned.

Rydym yn sefydliad newydd a grëwyd ym mis Ebrill 2013 i gyflwyno dull mwy cyfannol o reoli amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru.

Rydym wedi rhannu ein Cynllun Corfforaethol a'r gwaith a wnawn yn bump o raglenni gwaith. Mae'r rhain i gyd yn rhaglenni trawsbynciol sy'n ddibynol ar ei gilydd – bydd y gwaith a wnawn mewn un rhaglen yn helpu i gyflawni ein gwaith yn y rhaglenni eraill.

Ac ni allwn lwyddo drwy weithio ar ein pennau ein hunain – ni allwn, ac nid ddymunwn, weithio ar ein pennau ein hunain – yr allwedd yw gweithio mewn partneriaeth wirioneddol ag eraill.

Mae rhagor o fanylion i'w cael yn y ddogfen lawn ynghyd â'n Cynllun Busnes blynyddol, sydd ar gael ar ein gwefan.

Ein diben yw...

// sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol

Ein gwerthoedd

Rydym:

- **Yn frwdfrydig ac yn uchelgeisiol** ynghylch ein gwaith a'r effaith gadarnhaol y byddwn yn ei chael
- **Yn ddisgybledig ac yn benodol** wrth bennu ein blaenoriaethau a chyflawni ein gwaith
- **Yn ddibynadwy ac yn broffesiynol** yn ein perthynas â'n rhanddeiliaid, ein staff a'u cynrychiolwyr
- Yn gweithredu'n **gall** wrth weithio, ac yn **gyfrifol** ac yn **atebol** am ein gweithredoedd

Ein rhaglenni 'Da'...



// mae'r cyfuniad o wybodaeth a chyflawni lleol... yn cynnig cyfle gwirioneddol i gyflawni rhywbeth arbennig yng Nghymru

Sylwadau o'r Ymgynghoriad

Gwybodaeth dda

Dealltwriaeth well a fydd yn arwain at benderfyniadau doethach

Byddwn

- Yn datblygu dulliau cyfannol o reoli a chynllunio adnoddau naturiol, fel ein ffordd o weithio yn y dyfodol, gan ddefnyddio tair ardal arbrawf o amgylch Dyfi, Rhondda a Thawe
- Yn defnyddio'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau, gan ystyried ecosystemau a chynefinoedd cyfan a'r gwasanaethau y gallant eu darparu ar ein cyfer, yn hytrach nag ystyried rhywogaethau neu weithgareddau unigol ar wahân
- Yn deall ein hamgylchedd, ein heconomi a'n pobl yn well
- Yn rhannu ein gwybodaeth ac yn defnyddio gwybodaeth sydd gan eraill
- Yn defnyddio tystiolaeth gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau

Yn dda i'r amgylchedd

Mae ecosystemau Cymru yn gydnherth, mae bywyd gwyllt a thirweddau'n cael eu gwella, ac mae adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n ddoeth

Byddwn

- Yn yn esiampl i eraill, yn y modd y rheolwn, yn gynaliadwy, y tir a'r môr yr ydym yn gofalu amdanynt ein hunain
- Yn helpu i warchod a gwella ansawdd awyr, tir, môr a dŵr
- Yn mynd i'r afael â phlâu a chlefydau, a rhywogaethau estron ymledol
- Yn creu ecosystemau mwy cydnherth ac yn helpu i atal colli bioamrywiaeth
- Yn ymaddasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn eu lliniaru

Yn dda i bobl

Mae pobl yn ddiolgel, ac yn mwynhau adnoddau naturiol Cymru

Byddwn

- Yn rheoli digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd a llygredd yn gyflym ac yn effeithiol
- Yn darparu cyfleoedd hamdden a mynediad, gan helpu i wella iechyd a lles pobl
- Yn helpu cymunedau gydweithio, gan wella amgylcheddau lleol, mynd i'r afael â thlodi, a gwirfoddoli
- Yn gwella mannau gleision mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd
- Yn creu cyfleoedd i ddysgu ar gyfer pawb, gan ddefnyddio ein hamgylchedd a'n hadnoddau naturiol

Ein rhaglenni 'Da'...

// rydym yn croesawu ymgysylltu'n gynnar, a gweithredu'n amserol ac agored, yng nghyswllt problemau a chyfleoedd, a pharodrwydd i gydweithredu a gweithio i ddatblygu'r canlyniadau gorau posibl... er budd yr amgylchedd, yr economi a phobl

Sylwadau o'r Ymgynghoriad

Yn dda i fusnes

Cymru yw'r lle y mae mentrau a busnesau'n ei ddewis, lle gwelir mai arfer amgylcheddol gorau yw'r norm

Byddwn

- Yn rheoleiddio'n gadarn, yn deg ac yn effeithlon, gan gydweithio â'r sawl yr ydym yn eu rheoleiddio
- Yn helpu i sicrhau bod y datblygiad iawn gennym yn y lle iawn, gan gyflwyno dull newydd o ymgynghori a chynghori ynghylch cynllunio
- Yn cefnogi cyfleoedd newydd i fusnesau a diwydiant, gan gynnwys swyddi a hyfforddiant
- Yn creu cyfleoedd i gynyddu ein henillion, fel y gallwn ailfuddsoddi mwy yn ein hamgylchedd

Sefydliad da

Rydym yn sefydliad wedi'i arwain a'i reoli'n dda, ac sydd â'r gweithwyr, y sgiliau a'r systemau iawn i gyflawni ein diben

Byddwn

- Yn gwella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i'n cwsmeriaid a'n partneriaid, ac yn gwella'r ffyrdd yr ydym yn gweithio â nhw
- Yn darparu cyfleoedd ar gyfer y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, drwy ein gwaith
- Yn dod yn fwy effeithlon ac effeithiol yn y ffyrdd y gwnawn bethau
- Yn meithrin ein diwylliant a'n gwerthoedd newydd, fel ein bod yn sefydliad proffesiynol ac yn sefydliad y mae'n hawdd i bobl siarad ag ef

- Yn datblygu ein gweithwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau iawn ar gyfer y swydd, ynghyd â gyrfa sy'n rhoi boddhad iddynt
- Yn sicrhau'r arbedion a'r manteision y cytunwyd arnynt pan sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru



Dweud wrthyich yr hyn yr ydym wedi'i wneud...



Byddwn yn agored wrth roi gwybod am ein cynnydd o safbwynt gwireddu'r addewidion a wnaethom yn ein Cynllun Corfforaethol. Cyflawnir hyn drwy gyfrwng ein Hadroddiad Blyneddol, ac yn nghyfarfodydd agored ein Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn croesawu cael safbwyntiau a sylwadau gan y sawl yr ydym yn gweithio gyda nhw a chan ein gweithwyr ein hunain.

Os hoffech yr wybodaeth hon mewn fformat arall, neu os hoffech wybod rhagor amdanom ni, cysylltwch â ni:

Ffôn: 0300 065 3000 (8am - 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)

Ebost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Neu ewch i'n gwefan:

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Os hoffech ymholi am lifogydd, neu os oes arnoch angen rhoi gwybod am ddigwyddiad, gallwch ein galw ni 24 awr y dydd:

Floodline: 0845 988 1188

Digwyddiadau: 0800 807060

